HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# HOCI CYMRU
# ADRODDIAD BLYNYDDOL
2019–2020

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | __ 4 |
| NEGES Y CADEIRYDD | __ 6 |
| NEGES Y PRIF WEITHREDWR | __ 7 |
| YMGYSYLLTU | __ 8 |
| CYFLAWNI POTENSIAL | __ 18 |
| AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS | __ 26 |
| CYFRANOGIAD | __ 32 |
| PARTNERIAETHAU | __ 38 |
| MANYLION ARIANNOL | __ 41 |




# LEAH WILKINSON
# **158 O GAPIAU**

Yn 2019, coronwyd **Leah Wilkinson**, Capten Hŷn Cymru, fel yr **Athletwr gyda'r Nifer Mwyaf o Gapiau wrth chwarae dros Gymru**, gan gyrraedd cyfanswm o 158 o gapiau.



# CYFLWYNIAD

**Ar ôl dwy flynedd o ymgynghori, yn 2019 lansiwyd bwriad strategol Hoci Cymru.**

Cafodd ein haelodau a'n dinesydd-newyddiadurwyr eu hannog i greu stori i helpu Hoci Cymru i ddeall beth oedd yn eu cymell a'u hysbrydoli, pwy ddylanwadodd ar eu stori, ac a oedd eu profiadau wedi eu hannog i barhau ar eu siwrnai hoci.

Mae'r ymarfer ymgynghori hwn wedi galluogi i ni ddeall a gweithio'n well gyda'n haelodau, gan roi cyfle cyffrous i ni newid ein dull o weithredu. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu strategaeth ddeinamig sy'n esblygu, yn cael ei harwain gan ddysgu ac yn troi o amgylch y person.

Mae ein bwriad strategol wedi cael ei ddatblygu i adlewyrchu ein blaenoriaethau a'i nod yw annog ein haelodau a'r rhai yn y teulu hoci ehangach i chwarae rhan weithredol mewn sicrhau ein bod yn darparu 'Profiadau Hoci o Safon Byd'.

Hefyd rydyn ni'n ceisio sicrhau bod y sefydliad yn ceisio gwella'n barhaus ac yn adlewyrchu ar ein canlyniadau i gyd-fynd â'n bwriad strategol.

Nid yw ein canlyniadau'n rhestr hollgynhwysfawr. Byddwn yn dangos ein llwyddiant drwy ddarpariaeth, tystiolaeth ac effaith weithredol. Drwy ddysgu rydyn ni eisiau bod yn hyblyg a gallu addasu, ac yn agored i newid, gan annog ein teulu hoci i gydweithredu â ni i ddangos ein dysgu a'n llwyddiannau.

Y 5 maes allweddol nawr o'n strwythur gweithio ac yn darparu sylfaen ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2019/20.

## EIN BWRIAD STRATEGOL

- **YMGYSYLLTU'N** barhaus gydag aelodau cyfredol a darpar aelodau
- Datblygu **PARTNERIAETHAU** er mwyn cynyddu ein capasiti i hybu, datblygu a darparu hoci
- Creu **AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS** i sicrhau profiadau positif
- Helpu pobl i **GYFLAWNI EU POTENSIAL**
- Creu **CYFLEOEDD** i gymryd rhan ar gyfer pawb

# NEGES GAN Y CADEIRYDD



**Gyd-Fwynhawyr Hoci**

Ar hyn o bryd rydyn ni mewn cyfnod nad ydyn ni wedi'i brofi o'r blaen. Mae hoci yn ein gwlad ni a thu hwnt wedi dod i stop, ein bywydau wedi newid y tu hwnt i unrhyw beth y gallem ei ddychmygu. Rydyn ni i gyd wedi cael ein heffeithio mewn ffyrdd gwahanol. Rydw i'n meddwl am bawb yn ein Teulu Hoci.

Mae llawer o bobl yn ein gwlad ni wedi rhoi o'u hamser eu hunain i helpu eraill drwy'r pandemig ac mae llawer wedi helpu hefyd i wneud i hoci ddigwydd eleni. Mae ymroddiad a chefnogaeth ein gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod ac rydyn ni'n diolch i chi i gyd.

Mae'r pandemig wedi datgelu llawer am ddynoliaeth ac, fel camp, rydyn ni'n parhau i addasu i'r normal newydd yn ogystal â dylanwadu ar sut gall hoci barhau i gael ei fwynhau gan gymaint o bobl mewn ffordd ddiogel yng Nghymru. Mae'r tîm wedi gwneud llawer o waith ers dechrau mis Mawrth i gefnogi clybiau, aelodau a gwirfoddolwyr, a pharhau i gynllunio ar gyfer dychwelyd at hoci gan weithio gyda'r Llywodraeth, UK Sport a thu hwnt i ddiffinio pontio at y normal newydd hwn. Fe fyddwn ni i gyd yn cael chwarae hoci unwaith eto ryw ddiwrnod yn fuan!

Ni wnaeth ein tymor domestig orffen mewn ffordd y byddem wedi hoffi ond mae perfformiadau cadarn drwy gydol y flwyddyn wedi arwain at gynnydd cwbl haeddiannol. Wrth gwrs, bydd y perfformiad mwyaf nodedig yn arwain at dîm Hoci Merched Abertawe yn cystadlu ym mhrif adran Genedlaethol y wlad. Mae cael timau'r Dynion a'r Merched yn cynrychioli hoci Cymru yn rhagorol. Fe fyddwn i'n croesawu pawb i ddilyn siwrneiau'r timau yma yn ystod y tymor sydd i ddod, a chefnogi'n bersonol er mwyn gweld rhai o'r talentau ifanc eithriadol yma'n chwarae yn y ddau glwb.

Mae ein cymuned Meistri'n parhau i ffynnu, gyda mwy o chwaraewyr a thimau nag erioed o'r blaen. Mae'n anhygoel gweld cymaint yn mwynhau chwaraeon cystadleuol ymhell yn eu gyrfaoedd chwarae eu hunain; sy'n dyst i gymuned y Meistri a'r holl bobl sy'n cyfrannu at ei llwyddiant.

Ar lefel ryngwladol, rydyn ni wedi gweld mwy o chwaraewyr o Gymru'n cael eu dewis ar gyfer Hoci Prydain Fawr. Mae Sarah Jones wedi chwarae'n gyson yn y Gynghrair Broffesiynol ac mae Leah Wilkinson, ein capten ni a'r chwaraewr rhyngwladol sydd wedi ennill y nifer mwyaf o gapiau'n chwarae dros Gymru, wedi ymuno â hi. Mae Jacob Draper a Rupert Shipperley wedi cael eu galw ac mae'r ddau wedi chwarae yn y Gynghrair Broffesiynol eleni hefyd. Mae cael chwaraewyr rhyngwladol Cymru yn cynrychioli Prydain Fawr yn wych ac mae ymrwymiad ein hathletwyr ni wir yn ysbrydoledig. Da iawn a phob lwc ar eich siwrnai tuag at gael eich dewis i Dîm Prydain Fawr ar gyfer y Gemau Olympaidd.

Rydyn ni wedi gweld nifer o bobl newydd yn ymuno â'r staff a'r bwrdd eleni, efo'r swydd y llywydd i gael ei llenwi yn fuan hefyd. Bydd ein tîm cryfach a'n haelodaeth yn helpu hoci i symud i'r normal newydd wrth i ni ddod yn ôl i'n camp yn ystod y misoedd nesaf.

Dymuniadau gorau

C Funnell

**Conrad Funnell**
Cadeirydd

# NEGES GAN Y PRIF WEITHREDWR



**At ein Teulu Hoci**

Wrth i mi ysgrifennu'r neges yma o gartref yn ystod pandemig byd-eang, rydw i wedi rhoi ennyd i adlewyrchu ar y cerrig milltir allweddol rydyn ni wedi'u cyflawni yn ystod y 12 mis. Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r adroddiad hwn, gan ei fod yn gyfle i ni arddangos y cyflawniadau gwych a'r cynnydd aruthrol, a hefyd dathlu ymrwymiad ac ymroddiad ein hathletwyr Rhyngwladol, ein llwybr perfformiad, y clybiau, y chwaraewyr, y dyfarnwyr, yr hyfforddwyr, y gwirfoddolwyr, y staff, y swyddogion a'r cefnogwyr. Rydw i'n eithriadol ddiolchgar am ein Teulu Hoci rhyfeddol – heb y teulu yma, ni fyddai ein cyflawniadau wedi bod yn bosib.

Ar ôl lansio ein bwriad strategol ym mis Rhagfyr, fe wnaethom addo cynnwys ein Teulu Hoci; creu amgylcheddau ffyniannus; ysbrydoli pawb i gyflawni eu huchelgais; darparu cyfleoedd i bawb ac adeiladu ar rai o'r partneriaethau rhagorol sy'n helpu hoci i ddigwydd. Rydw i'n eithriadol ddiolchgar i'r tîm yn Hoci Cymru am eu gwaith caled yn ymgorffori'r ymrwymiadau hyn yn eu gwaith ac am gefnogaeth a chyfraniad parhaus ein haelodau wrth i ni barhau fel sefydliad sy'n cael ei arwain gan ddysgu.

Mae eleni wedi bod yn llwyddiant enfawr ar y llwyfan rhyngwladol. Dangosodd ein dynion hŷn eu gallu ar lwyfan y byd, gan gadw eu lle ym Mhencampwriaethau EwroHoci ac wedyn gwella eu safle yn y byd o 7 safle i fod yn 18fed yn y byd. Hefyd fe welsom ni chwaraewyr Cymru'n sicrhau eu lle yng ngharfan Prydain Fawr, gyda Sarah Jones, Jacob Draper, Leah Wilkinson a Rupert Shipperley yn perfformio yng Nghynghrair Broffesiynol FIH a'r Rowndiau Cymhwyso Olympaidd, a phob un yn cystadlu am le yng Ngemau Olympaidd Tokyo 2020 sydd wedi'u gohirio bellach tan 2021.

Wrth i ni barhau i weithredu, rydyn ni'n parhau â'n hymrwymiad a byddwn yn parhau i weithio gyda'n clybiau a'n partneriaid, gan gynnal ein ffocws ar iechyd y cyhoedd, ond paratoi ar gyfer dychwelyd cefnogol at y gêm. Mae'r angerdd dros hoci yn ystod y cyfyngiadau symud wedi bod yn anhygoel. Rydw i wedi mwynhau'r rhyngweithio, a lefel y gweithgarwch a'r cyswllt ar gyfryngau cymdeithasol, gan ein hysbrydoli ni i gyd ar gyfer dyfodol cyffrous.

Fe hoffwn i fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i'r tîm yn Hoci Cymru; mae fy nghydweithwyr i wedi dangos proffesiynoldeb ac ymrwymiad i'n camp ni, gan addasu i'r sefyllfaoedd sy'n newid o hyd rydyn ni ynddyn nhw yn ystod pandemig Covid-19. Mae ein staff cefnogi perfformiad wedi sicrhau bod ein hathletwyr yn parhau â'u ffocws ac yn cael cefnogaeth yn ystod y cyfnod ansicr yma, gan weithio'n galed i sicrhau dychwelyd hwylus at weithgarwch hoci. Rydw i'n eithriadol ddiolchgar o gael gweithio gydag unigolion mor angerddol a brwd.

Gyda phwyslais byd-eang ar iechyd, teulu ac ymarfer, mae wedi bod yn gyfle i adlewyrchu, blaenoriaethu ac ailwerthuso. Fe fyddwn ni'n symud ymlaen, ac yn dychwelyd at ein camp gydag egni newydd, yn llawn bywyd ac wedi'n hysbrydoli. Fy ngobaith i yw y byddwn ni'n parhau'n garedicach, yn fwy trugarog ac yn fwy gwerthfawrogol o'n hanwyliaid a gwir ystyr y Teulu Hoci. Rhaid i ni werthfawrogi ein camp a'n gilydd!

Ria BM

**Ria Burrage-Male**
Prif Weithredwr

# YMGYSYLLTU



# YMGYSYLLTU

## AELODAETH HOCI CYMRU 2019-2020



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y Clybiau | 80 | 22 | 24 | 20 | 14 |
| Nifer yr Aelodau | 6376* | 761 | 2687 | 1238 | 1375 |
| Nifer yr Aelodau Iau (D 13) | 1580 | 229 | 635 | 386 | 330 |
| Nifer yr Aelodau Hŷn (13+) | 4796* | 532 | 2052 | 852 | 1045 |

* yn cynnwys 315 aelod unigol



**1116** MERCHED IAU

**464** BECHGYN IAU

**3114** MERCHED HŶN

**1682** DYNION HŶN

Flyerz HOCKEY

WEDI CYFLAWNI DYFARNIAD INSPORT EFYDD

WALKING HOCKEY — WALK YOUR WAY TO WELLNESS

**3** SAFLE HOCI YN CERDDED

Hockey YOUNG AMBASSADORS

Rhaglen y Llysgenhadon Ifanc yn ei

**7FED BLWYDDYN**

gan groesawu

**98**

**O BOBL IFANC**

i gyd

Summer 7's

WEDI DENU

**26 O GLYBIAU**

AT EIN DARPARIAETH HAF

SMASH Hockey

Gemau allwch chi chwarae unrhyw amser, unrhyw le.

WEDI DENU

**16**

O GLYBIAU CHWARAEON AR GARREG Y DRWS

HOOKED ON HOCI

**111**

**O YSGOLION**

yng Nghymru wedi cofrestru

**666 O ORIAU**

o hyfforddiant gan Hoci Cymru wedi'i ddarparu yn ystod amser y cwricwlwm

**10559**

wedi adrodd am gyfranogwyr unigryw mewn

**11 AWDURDOD LLEOL**



**8 CANOLFAN DDATBLYGU**

wedi'u sefydlu yn genedlaethol ac yn darparu sesiynau i blant sydd rhwng **7 AC 17 OED**




# Flyerz HOCKEY

**Yn dilyn lansiad Hoci Flyerz yn 2018, rydyn ni wedi cymryd camau tuag at Gynnwys Anabledd fel sefydliad 'oddi ar y cae'. Gan weithio'n agos gyda Chwaraeon Anabledd Cymru, rydyn ni wedi gweld llwyddiant ar siwrnai 18 mis tuag at Ddyfarniad Insport Efydd, achrediad sy'n galluogi i ni geisio sicrhau bod cynnwys yn cael ei ymgorffori a thrwy wneud cynnydd drwy'r achrediad hwn, cawsom lwyfan i sicrhau ein bod yn dod yn sefydliad 'Cynhwysol i Anabledd'.**

Cafodd ein ffocws ni ar hoci cynhwysol a'n cynnydd drwy Insport ei sbarduno i ddechrau gan ddau Lysgennad Ifanc Hoci, Harri Evans a Chloe Jordan, a gafodd eu hysbrydoli yn dilyn eu hymweliad ag Amsterdam yn 2016 lle buont yn gwirfoddoli am y tro cyntaf ym Mhencampwriaethau ParaHoci Ewrop, fel rhan o'u gwaith gyda Phanel Ieuenctid EHF.

Mae eu penderfyniad i ddod â Flyerz i Gymru wedi helpu yn awr gyda dylanwadu ar ein bwriad strategol newydd i sicrhau bod ein camp yn fwy cynhwysol i bawb, yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol at ein llwyddiant yn cyflawni Insport Efydd.

Er mwyn cyflawni Insport Efydd, rydyn ni wedi gorfod ystyried sut rydym yn dod yn sefydliad cynhwysol i anabledd, nid dim ond ar y cae.

Pennaeth Datblygiad, Hannah Bevan:

"Nid yn unig ydyn ni'n deall pwysigrwydd sicrhau cyfleoedd hoci cynhwysol ar y cae, ond hefyd mae'r diwylliant a'r prosesau sydd wedi'u hymgorffori oddi ar y cae yr un mor bwysig.

Fel sefydliad, rydyn ni'n gweld y dysgu o siwrnai Insport hyd yma'n galluogi i ni sicrhau bod amgylcheddau ffyniannus yn cael eu creu ar gyfer hoci yn yr ysgol, ar lwybr clybiau ac ar lefel menter.

Byddwn yn cefnogi datblygu amgylchedd cynhwysol i anabledd ar y lefelau hyn i gyd er mwyn sicrhau sut bynnag rydych chi'n dewis dod yn rhan o'r gamp, fel chwaraewr, dyfarnwr, swyddog, hyfforddwr neu wirfoddolwr, fe FYDDWCH chi'n cael eich cynnwys."

Beth mae hyn yn ei olygu i ni fel sefydliad wrth symud ymlaen?

Byddwn yn parhau ar siwrnai Insport ac yn dilyn y llwybr tuag at gyflawni Insport Arian, gyda llinell amser sy'n sicrhau bod cynnwys anabledd wir yn cael ei ymgorffori ar draws y sefydliad, ac nid dim ond at ddiben ennill dyfarniad arall.

Mae Insport Arian yn ein hannog ni i ymgorffori cynnwys anabledd ar draws ein haddysg datblygu hyfforddwyr, diogelu oedolion a phlant, amgylcheddau clwb a datblygu polisi, i enwi dim ond rhai.




**Mae Hoci yn Cerdded wedi parhau i fod yn fenter gynyddol i ni wrth i ni ddatblygu partneriaethau newydd a hefyd gweithio gyda chyfranogwyr newydd ar yr un pryd. Nawr mae gennym ni 3 safle Hoci yn Cerdded cynaliadwy ledled De a Gorllewin Cymru, gan gynnwys Caerwent, RhCT a Llandybie.**

Mae'r 12 mis diwethaf nid yn unig wedi arwain at dwf mewn niferoedd sy'n cymryd rhan ond hefyd datblygiad oddi mewn i'r partneriaethau rydyn ni wedi gweithio â nhw i wneud cynnydd gyda'r fenter hon. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu hefyd gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yng Nghasnewydd, y Cynllun Cyfeirio at Ymarfer Cenedlaethol a Phrifysgol Abertawe. Mae natur pob un o'r partneriaethau hyn yn wahanol a byddant yn ceisio cynnwys datblygiadau unigryw yn ein darpariaeth, gan gynnwys cefnogaeth darparu, cyfleoedd cyfeirio at ein sesiynau lleol ac ymchwil a fydd yn tynnu sylw at fanteision ffisiolegol a seicolegol Hoci yn Cerdded.

Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf ar gyfer Hoci yn Cerdded, byddwn eisiau ehangu nifer y safleoedd ledled Cymru, gyda phecynnau cit a chardiau adnoddau ar gael ar gyfer unrhyw bartneriaid darparu sydd eisiau gweithio gyda'r fenter a darparu Hoci yn Cerdded fel fersiwn arall o'r gêm i gynulleidfa newydd

> 'Mae'r 12 mis diwethaf nid yn unig wedi arwain at dwf mewn niferoedd sy'n cymryd rhan ond hefyd datblygiad oddi mewn i bartneriaethau'




# Hockey YOUNG AMBASSADORS

**Blwyddyn lwyddiannus arall o roi llais i bobl ifanc yn y byd hoci wrth iddyn nhw gymryd rhan yn ein rhaglen ar gyfer Llysgenhadon Ifanc sydd yn ei 7fed flwyddyn bellach, gan groesawu 98 o bobl ifanc, newydd a phresennol.**

Rhoddwyd cychwyn i'r rhaglen gyda'r Gwyliau Arweinyddiaeth Rhanbarthol, yn darparu cyfleoedd dysgu gweithdy ar gyfer yr arweinwyr ifanc i edrych ar Arweinyddiaeth, Rhwydweithio, Menter Gymdeithasol a Chyfryngau Cymdeithasol. Newidiwyd y fformat o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol pryd cynhaliwyd cynadleddau Cenedlaethol ac roedd y Gwyliau Arweinyddiaeth Rhanbarthol yn darparu amgylchedd dysgu mwy clos, gan alluogi lefel uwch o ymgysylltu gan y Llysgenhadon Ifanc a darparodd y ddwy ŵyl yn Llyn Efyrnwy a Phrifysgol De Cymru adborth positif a hefyd syniadau newydd i'w gweithredu yn rhaglen y flwyddyn nesaf.

Gan fod y tymor wedi dod i ben yn fuan oherwydd Covid-19, ni chafodd y Llysgenhadon Ifanc gyfle i gymryd rhan yn ein Digwyddiadau Cenedlaethol yn Rowndiau Terfynol yr Ieuenctid a Rowndiau Terfynol y Cwpan, ond mae lefel yr ymgysylltu gyda'r Llysgenhadon Ifanc yn ystod y cyfnod hwnnw wedi cael ei gynnal gan y Grŵp Llywio.












# Summer 7's

Yn ystod haf 2019, ehangwyd ein darpariaeth 7 yr Haf i weithredu mewn mwy o leoliadau nag erioed o'r blaen. Drwy ehangu ar draws y 4 rhanbarth, ac i 7 lleoliad yn genedlaethol, llwyddwyd i ddenu 26 o glybiau i gymryd rhan yn ein darpariaeth haf er mai dim ond trydedd flwyddyn y fenter oedd hon.

Nod 7 yr Haf yw darparu cyfleoedd cystadleuol ychwanegol i aelodau Hoci Cymru yn ystod misoedd yr haf a gweithredu'n aml fel cyfrwng i gyflwyno chwaraewyr newydd i'r gamp. Gwrando ar adborth yr aelodau a dysgu oddi wrth ein darpariaeth haf sydd wedi ei gwneud mor boblogaidd, ac rydyn ni'n ceisio parhau i dyfu'r brand gyda 'Chitiau Gŵyl' 7 yr Haf yn cael eu lansio i'n helpu ni i gymryd y cam nesaf at ddarparu profiad drwy gydol y flwyddyn i aelodau Hoci Cymru.

## Prif ystadegau ar gyfer haf 2019:

- 7 Lleoliad
- 26 Tîm
- 18 Digwyddiad
- Cyfranogwyr yn amrywio o 11 i 65 oed
- Cynnwys Aelodau ac Eraill
- 198 o gyfranogwyr unigryw








# SMASH Hockey

Gemau allwch chi chwarae unrhyw amser, unrhyw le.

**Mae SMASH Hoci yn parhau i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd i chwarae hoci.**

Mae wedi sefydlu bellach fel menter unigol ac, mewn partneriaeth â Street Games, mae wedi llwyddo i gynnwys 16 o Glybiau Chwaraeon ar Garreg y Drws ledled Cymru.

Rydyn ni'n parhau i ddysgu, tyfu a datblygu ein darpariaeth SMASH ac, ar ôl Wythnos SMASH ym mis Mai 2019, sicrhawyd cyfranogiad a momentwm cynyddol. Roedd hyn yn cyd-fynd â'n rhaglen Llysgenhadon Ifanc gyda SMASH yn darparu cyfleoedd datblygu gwerthfawr yn y Teulu Hoci ehangach ar gyfer yr holl gyfranogwyr. Edrychwch ar ein fideos gyda'n partner Street Games i gael mwy o wybodaeth am Hoci SMASH:

https://www.instagram.com/p/BxsafMChZCB/?utm_source=ig_web_button_share_sheet

https://www.instagram.com/p/Bxu9rPrnJ6f/?utm_source=ig_web_copy_link

> 'Rydyn ni'n parhau i ddysgu, tyfu a datblygu ein darpariaeth SMASH'








# HOOKED ON HOCI

**Fel ein prif raglen hoci i ysgolion, mae llwyddiant Hooked on Hoci wedi galluogi i ni gyflwyno profiadau cyntaf positif o hoci i fwy o ysgolion nag erioed o'r blaen yng Nghymru.**

Mae ein darpariaeth nid yn unig yn cyflwyno darpariaeth hyfforddi arbenigol i ysgolion partner, ond hefyd rydyn ni'n gwella sgiliau aelodau o staff ym mhob ysgol bartner ac yn eu cofrestru ar raglen fentora barhaus fel eu bod yn parhau i ddatblygu a bod ganddynt hyder i gyflwyno sesiynau strwythuredig, difyr a buddiol unwaith mae ein darpariaeth ni fel rhan o'r cwricwlwm yn dod i ben.

Hefyd, mae pob ysgol bartner yn cael mynediad awtomatig i ŵyl Hooked on Hoci leol i ysgolion cynradd, sy'n cael ei threfnu i ddarparu'r cyfuniad gorau posib o weithgareddau, gemau a chystadlaethau. Rydyn ni'n cydnabod mai'r blynyddoedd cynnar yw'r rhai pwysicaf ac yn credu y bydd darpariaeth o ansawdd yn 7 i 11 oed yn creu plant sy'n deall hoci sy'n pontio i'n clybiau sy'n aelodau.

Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn faes ffocws i ni wrth i ni greu ein rhwydwaith o athrawon ysgolion cynradd sy'n gallu cyflwyno sesiynau hoci difyr yn hyderus.

Mae ein rhaglen o gyfleoedd DPP clwb wedi'u targedu yn golygu bod gennym ni fwy o hyfforddwyr ieuenctid nag erioed o'r blaen nawr sy'n gallu darparu profiadau rhagorol mewn sesiynau clwb, fel bod y cyfranogwyr yn cael Profiad o Safon Byd ble a phryd bynnag maen nhw'n cydio mewn ffon.

2019/20 – 111 o ysgolion yng Nghymru wedi cofrestru gyda rhaglen HOH, 666 o oriau o hyfforddiant gan Hoci Cymru wedi'u cyflwyno fel rhan o amser y cwricwlwm, 10559 o gyfranogwyr unigryw wedi'u cofnodi mewn 11 Awdurdod Lleol, mewn ardaloedd dalgylch ar gyfer 25 o Glybiau Hoci gyda 60 o athrawon wedi cael y cyfle i wella eu sgiliau ar Ddyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci ac yn derbyn mentora parhaus gan ein rhaglen Datblygu Hyfforddwyr.

Mae ein gweithlu wedi cynyddu'n sylweddol i hwyluso darparu Hooked on Hoci. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20, roedd gennym ni 23 o hyfforddwyr yn gweithio yng nghymunedau Cymru yn cyflwyno'r rhaglen, a phob un yn cael cefnogaeth gan gyfleoedd DPP gwerthfawr ac yn cael cydnabyddiaeth enfawr am y rôl greiddiol maen nhw'n ei chwarae yn nyfodol ein camp ni.

> 'Rydyn ni'n cydnabod mai'r blynyddoedd cynnar yw'r rhai pwysicaf ac yn credu y bydd darpariaeth o ansawdd yn 7 i 11 oed yn creu plant sy'n deall hoci ac yn ymuno â chlwb'



# CANOLFANNAU DATBLYGU

**Wedi'u lansio yn 2018, nod Canolfannau Datblygu Hoci Cymru yw darparu cyfleoedd hyfforddi ychwanegol i bobl ifanc yng nghymunedau Cymru sydd eisiau cael mwy o hoci. Rydyn ni wedi cydnabod bod cannoedd o blant fyddai'n ymarfer drwy'r dydd pe baent yn cael, ond nid ydynt yn cael mynediad i'n cyfleusterau ni bob amser. Felly, mae'r Canolfannau Datblygu'n ceisio cau'r bwlch a galluogi i fwy o hoci ddigwydd.**

Nawr mae gennym ni 8 Canolfan Ddatblygu wedi'u sefydlu yn genedlaethol sy'n darparu sesiynau i blant rhwng 7 ac 17 oed. Mae'r Canolfannau Datblygu'n cael eu gweithredu mewn blociau o Hanner Tymor ac yn cael eu hategu gan Wersylloedd Gwyliau sy'n cael eu cynnal fel rheol mewn lleoliadau tebyg yn ystod Gwyliau'r Ysgol.

Mae'r Canolfannau Datblygu'n ymateb i anghenion y grŵp ac yn gyfle i chwaraewyr sy'n cael eu rhyddhau o'r llwybr perfformio weithio ar eu gêm gyda'r nod o ddod yn rhan o'r llwybr mewn cam diweddarach.

Mae gwerth mawr i wybodaeth a defnydd o'n gweithlu hyfforddi er mwyn gwneud y Canolfannau Datblygu'n llwyddiannus, ac mae'r defnydd effeithiol o Lysgenhadon Ifanc Hoci yn helpu i greu teimlad croesawus a chyflawn ym mhob sesiwn.

Hefyd mae'r Canolfannau Datblygu'n gweithredu fel llwybr mynediad ychwanegol i'r gamp, sy'n hynod effeithiol yn dilyn ein gwaith Hooked on Hoci yn yr ysgolion cynradd. Mae'r dull 'talu wrth chwarae' yn galluogi i blant bontio o'r ysgol i'r clwb drwy gyfrwng sesiwn â'i ffocws ar gyfranogiad a mwynhad sy'n cael ei gyflwyno gan hyfforddwyr hynod gymwys Hoci Cymru.

Rydyn ni'n gosod ein Canolfannau Datblygu yn benodol mewn ardaloedd lle mae galw cudd am ddarpariaeth hoci. Rydyn ni'n defnyddio sgiliau'r hyfforddwyr lleol er mwyn sicrhau bod y pontio yn y diwedd o sesiwn y Ganolfan Ddatblygu i sesiwn hoci clwb yn un llyfn a hygyrch, gyda wynebau cyfarwydd i'w gweld yn y sesiynau i'r cyfranogwyr.

> 'Nawr mae gennym ni 8 Canolfan Ddatblygu wedi'u sefydlu yn genedlaethol sy'n darparu sesiynau i blant rhwng 7 ac 17 oed'



# MENTRAU NEWYDD

Eleni mae Twrnameintiau Hoci Ieuenctid Gogledd Cymru a Chynghrair Iau Gorllewin Cymru wedi cael eu sefydlu, gydag 20 o glybiau'n cofrestru timau'n gyson yn y grwpiau oedran Dan 9, Dan 11, Dan 13 a Dan 15. Yn cynnal cystadlaethau misol mewn gwahanol leoliadau, nod y cystadlaethau hyn yw sicrhau bod y clybiau sy'n cymryd rhan yn gallu dod at ei gilydd yn eu hardal leol ar ddyddiad penodol.

Mae'r cyswllt â'r rhaglen wedi bod yn wych gyda llawer o glybiau'n adrodd ar gynnydd yn eu haelodaeth ieuenctid oherwydd y cysondeb mae'r aelodau'n ei gael gyda'r cyfleoedd cystadleuol. Rhaid diolch o galon i'r rhieni a'r gwirfoddolwyr sy'n helpu i wneud i'r dyddiau weithio mor llwyddiannus ac sy'n darparu profiad o safon byd i gannoedd o blant ledled y ddau ranbarth.

'Mae Twrnameintiau Hoci Ieuenctid Gogledd a Gorllewin Cymru wedi gweld 20 o glybiau'n cymryd rhan yn rheolaidd, ym mhob grŵp oedran'



# CYFLAWNI POTENSIAL



# UCHAFBWYNTIAU CYFLAWNI POTENSIAL

## TÎM PRYDAIN FAWR - 4 CHWARAEWR O GYMRU YN RHAN O GARFAN PRYDAIN FAWR



Sarah Jones



Jacob Draper



Leah Wilkinson



Rupert Shipperley

## MERCHED HŶN



Leah Wilkinson yn ennill y nifer mwyaf o gapiau i unrhyw athletwr o Gymru.







Phoebe Richards, Jo Westwood a Sian French wedi pasio carreg filltir y 100 o gapiau.



Rose Thomas wedi'i henwi yn gôl-geidwad y twrnamaint yn Rowndiau Terfynol Cyfres FIH.



Y tîm D21 yn ôl yn nigwyddiad adran B Ewrop ac wedi llwyddo i gael dyrchafiad i adran 'A' Ewrop yn 2022.

## DYNION HŶN



Y cychwyn gorau posib yn Rowndiau Terfynol Cyfres FIH, gan drechu Canada 3-1 gyda charreg filltir i Gareth Furlong a enillodd ei 100fed cap.



Uchafbwynt enfawr i hoci yng Nghymru wrth weld y dynion yn chwarae ym mhrif gystadleuaeth adran A.



Brwydr i dynnu dŵr o'r dannedd yn erbyn Lloegr yng nghystadleuaeth adran A wedi arwain at gêm gyfartal 2-2.




Y dynion D21 yn ôl yng nghystadleuaeth Ewrop yn 2019 a gorffen yn 1af wedi sicrhau dyrchafiad iddynt i adran 'B'.




# HOCI PRYDAIN FAWR

**Dechreuodd Prydain Fawr eleni gyda'u llygaid ar Gemau Olympaidd Tokyo 2020, ond mae'r pandemig byd-eang wedi gorfodi gohirio'r gemau tan yr haf nesaf.**

Cymhwysodd Dynion a Merched Prydain Fawr ar gyfer y gemau ym mis Tachwedd gyda buddugoliaethau cadarn gartref. Trechodd y pencampwyr Olympaidd presennol Chile 5-1 rhwng dwy gêm a cholli o 9-3 fu hanes Malaysia yn erbyn dynion Prydain Fawr.

Ar ôl perfformio'n dda i gyd yng ngemau agoriadol Cynghrair Broffesiynol FIH yn 2020, rydyn ni'n gobeithio y bydd 4 chwaraewr o Gymru, Sarah Jones, Jacob Draper, Leah Wilkinson a Rupert Shipperley, yn cael cystadlu yng Ngemau Olympaidd Tokyo 2021, carreg filltir sydd heb ei chyflawni yng Nghymru ers degawdau.

Eleni hefyd anrhydeddwyd cyn Gapten Prydain Fawr a Chymru, Sheila Morrow, a dderbyniodd OBE am ei gwasanaethau i hoci yng Nghymru a daeth yn Aelod Oes cwbl haeddiannol o Hoci Cymru. Mae Sheila wedi cynrychioli hoci ar gymaint o lefelau ac mewn sawl ffurf fel ei bod yn anodd iawn crynhoi popeth mae wedi'i gyflawni, ond mae wastad wedi bod yn eithriadol falch o'i threftadaeth Gymreig ac mae wedi ein cynrychioli ni gyda bri enfawr ledled y byd hoci.













# GWEITHGARWCH RHAGLEN Y MERCHED HŶN A'R ARFANAU D21/23

**MAI 2019**
Chwaraeodd y merched hŷn 3 gêm gartref yn erbyn Ffrainc, gan ennill y ddwy gyntaf a cholli'r cyfarfyddiad olaf. Yn ystod y gyfres, enillodd Leah Wilkinson y nifer mwyaf o gapiau i unrhyw athletwr erioed yn chwarae dros Gymru a hefyd aeth Phoebe Richards, Jo Westwood a Sian French heibio'r garreg filltir o 100 o gapiau. Cafodd y gemau hyn eu darlledu ar S4C.

**MEHEFIN 2019**
Teithiodd Cymru i Valencia i chwarae yn Rowndiau Terfynol Cyfres FIH gan orffen yn y 6ed safle, a oedd ar safle. Yn galonogol, cawsant gêm gyfartal 2-2 yn erbyn De Affrica, sydd mewn safle uwch, yn y gêm gyntaf, a dim ond colli o drwch y blewyn fu eu hanes i enillwyr y fedal efydd yng Nghwpan y Byd a chynheiliaid y twrnamaint, Sbaen, o 1-0 yn y gêm gategoreiddio croesi drosodd. Hefyd cafodd Rose Thomas ei henwi'n gôl-geidwad y twrnamaint, a oedd yn ganmoliaeth uchel mewn cae o gystadlu o safon uchel.

**GORFFENNAF 2019**
Dychwelodd y tîm D21 i gystadleuaeth adran B Ewrop yn Nhwrci wedi absenoldeb maith o'r rhaglen hon, gyda gobeithion mawr a sgwad oedd yn cynnwys sawl chwaraewr oedd wedi cynrychioli'r tîm hŷn eisoes yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd ar frig ei grŵp heb ildio gôl ond wynebodd y tîm dorcalon mewn rownd gyn-derfynol yn erbyn yr Eidal gyda'r gwrthwynebwyr yn llwyddo i gael mantais fawr yn yr hanner cyntaf ac wedyn yn ennill drwy ergydio am y gôl, gan adael y tîm i orfod chwarae gêm i gipio medal efydd yn erbyn yr Wcrain ond, yn bwysicach, gyda dyrchafiad yn opsiwn o hyd am nad oedd yr Eidal yn gallu cael dyrchafiad am eu bod dan waharddiad gan EwroHoci. Cwblhaodd y tîm y twrnamaint mewn steil, yn 3ydd gan ennill medal a hefyd cael y dyrchafiad hollbwysig hwnnw i adran 'A' Ewrop yn 2022.

**AWST 2019**
Gorffennodd y tîm yn 5ed yn nigwyddiad adran B Ewrop yn Glasgow. Gan eu bod wedi methu ennill eu gêm grŵp olaf yn erbyn Gwlad Pwyl (gêm gyfartal o 2-2), dim ond rhwng safleoedd 5 ac 8 allent orffen, ond yn falch iawn, gorffennodd y tîm yn y safleoedd terfynol hynny ac aros yn eu safle. Er bod y tîm wedi dymuno cyrraedd y rownd gyn-derfynol ac yn siomedig am fethu, sgoriwyd mwy o goliau ganddo na mewn unrhyw ymgyrch Ewropeaidd flaenorol yn ddiweddar a gall fod yn bositif wrth symud ymlaen i gam nesaf ei weithgarwch. Yn y twrnamaint hwn, enillodd Lauren Roberts ei chap cyntaf.

**IONAWR 2020**
Teithiodd y tîm am yr ail flwyddyn yn olynol i Antibes i chwarae 3 gêm yn erbyn Ffrainc a chafwyd cyfres gyfartal iawn, gyda'r ddwy garfan yn ennill un gêm yr un a'r gêm brawf swyddogol yn un gyfartal, 1-1, gyda Nell Butler, yn 18 oed ac yn ennill ei chap cyntaf, yn sgorio gôl i Gymru.

Tra oedd y sgwad awyr agored yn Ffrainc, cynrychiolodd grŵp arall o chwaraewyr D21 yn bennaf y merched hŷn yn adran B Dan Do Ewrop yn Croatia. Roedd hwn yn gyfle i fwy o chwaraewyr chwarae mewn twrnamaint hoci hŷn ac roedd yn brofiad heriol yn erbyn rhai arbenigwyr dan do da iawn, yn fwyaf nodedig Rwsia a Gwlad Pwyl, sy'n cymhwyso'n gyson am Gwpan y Byd. Roedd y profiad yn amhrisiadwy ac uchafbwynt y gemau oedd herio tîm trefnus a da iawn o'r Alban bob cam a cholli o drwch y blewyn o 4-3 mewn brwydr o'r naill ben i'r llall i'r cae.

# GWEITHGARWCH RHAGLEN Y DYNION HŶN A'R CARFANAU D21/23



**EBRILL 2019**
Teithiodd y dynion i Kuala Lumpur ym Malaysia ar gyfer Rowndiau Terfynol Cyfres FIH a chafwyd y cychwyn gorau posib, er gwaetha'r amodau chwarae heriol, gan drechu'r tîm yn y safle uchaf wrth fynd i mewn i'r twrnamaint, Canada, gyda buddugoliaeth o 3-1. Roedd y gêm hon yn garreg filltir i Gareth Furlong a enillodd ei 100fed cap.

Cafwyd buddugoliaeth agos o 2-1 yn erbyn Belarws ac wedyn colli o 2-0 yn erbyn Awstria, gan olygu bod y tîm wedi gorffen ar y brig yn gydradd gyda Chanada ac Awstria ond bod gwahaniaeth goliau wedi gweithio yn ei erbyn a'i osod yn 3ydd yn y grŵp yn y diwedd, gyda gêm lai ffafriol ar draws y grwpiau yn erbyn y cynheiliaid Malaysia. Er colli'r gêm o 2-1, gorffennwyd ar safle drwy drechu Tsieina o 3-2 a sicrhau 5ed safle.

**GORFFENNAF 2019**
Parhaodd paratoadau'r dynion hŷn ar gyfer yr Ewros gyda thrip i chwarae yn erbyn Awstria yn Vienna dros 3 gêm ddechrau mis Gorffennaf, gyda gemau agos iawn. Gêm gyfartal 1-1 yng ngêm 1 ac wedyn colli yn agos, 3-2 a 2-1, ond roedd y paratoadau'n werthfawr gan roi llawer i'r grŵp adeiladu arno.

Dychwelodd y dynion D21, fel y merched D21, at gystadlu ar lefel Ewropeaidd yn 2019 ar ôl cyfnod o absenoldeb ac roedd rhaid iddynt gystadlu yn adran 'C' ar gyfer tri thîm yn erbyn y cynheiliaid Lithwania a'r Wcrain mewn ymgais i sicrhau dyrchafiad. Ar ôl dod drwy'r ornest gron fechan yn llwyddiannus, gêm yn erbyn yr Wcrain oedd y gêm derfynol ac roedd mor agos. Gyda'r ddau dîm wedi'u cloi 2-2 ar ddechrau'r chwarter olaf, roedd yr Wcrain yn meddwl eu bod wedi gwneud digon wrth sicrhau 3-2 gyda 10 munud i fynd, ond trodd 2 gôl gan Rhys Bradshaw bethau rownd yn y munudau olaf gan adael Cymru'n enillwyr o 4-3 ac oherwydd eu bod wedi gorffen yn y safle 1af cawsant ddyrchafiad i adran 'B', cynnydd pwysig iawn i'r grŵp oedran yma. Rhaid crybwyll Ioan Wall a orffennodd fel prif sgoriwr y twrnamaint gyda 5 gôl.

**AWST 2019**
Roedd gweld y dynion yn chwarae ym mhrif gystadleuaeth adran A yn uchafbwynt enfawr i hoci yng Nghymru ac roedd llygaid pawb ar y tîm wrth iddo gymryd ei le yn y tabl yn Antwerp, Gwlad Belg, a gêm agoriadol i dynnu dŵr o'r dannedd yn erbyn Lloegr. Rhoddodd goliau gan Gareth a Rhodri Furlong Gymru ar y blaen o 2-1 nes i Loegr gael gôl gyfartal flêr gyda 2 funud i fynd, ond profodd y pwynt hwnnw'n hollbwysig gyda Lloegr yn y diwedd yn ymuno â Chymru yn y gemau categoreiddio 5ed i 8fed safle ac yn mynd â'r canlyniad hwnnw gyda hwy. Er na lwyddodd y tîm i gynnal y momentwm cynnar yng ngemau olaf y grŵp, gan golli o 5-1 i Sbaen a 6-0 i'r cynheiliaid a Phencampwyr y Byd, Gwlad Belg, dysgwyd gwersi pwysig o'r ddwy gêm, gyda'r olaf yn brofiad eithriadol a bythgofiadwy o flaen torf gartref enfawr gyda'r nos, a mwynhawyd yr achlysur gan y chwaraewyr a'r staff.

Roedd y gemau categoreiddio'n allweddol mewn ymgais i adfer statws adran 'A' ac ennill pwyntiau safleoedd byd gwerthawr. Ac, er gwaethaf colli'n siomedig o 4-2 yn erbyn yr Alban yn y gêm olaf ond un, roedd y nod yn glir cyn y gêm derfynol yn erbyn Iwerddon - byddai buddugoliaeth gyfforddus yn golygu bod Cymru'n aros yn glir o orfod symud i lawr adran.

Os oedd y sgript wedi'i hysgrifennu cynt, cafodd ei dilyn i'r llythyren gan y tîm a enillodd yn gyfforddus gyda sgôr berffaith o 4-0 a Gareth Furlong yn sgorio 2 ac yn dod â'i gasgliad o goliau i gyfanswm nodedig o 4, a gorffennodd y tîm yn 6ed mewn ymgyrch wych yn ôl ar y lefel hon.

**IONAWR 2020**
Aeth dynion hŷn Cymru â thîm allan i adran C Dan Do Ewrop yn Santander, Sbaen, ar ôl cyfnod byr o baratoi oedd yn cynnig cyfle i ymestyn profiad y sgwad ehangach a rhoi cyfle i fwy o chwaraewyr brofi hoci twrnamaint ar lefel Ewropeaidd. Gorffennodd y tîm yn 4ydd ac roedd yn gystadleuol iawn yn y twrnamaint gyda grŵp caled o wrthwynebwyr oedd yn cynnwys yr Alban, Iwerddon a'r enillwyr yn y diwedd, Sbaen.





# GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL

## GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL – MERCHED

**PASG 2019**
Cyfres o dair gêm brawf yn erbyn yr Alban ar gyfer y tîm D18 a D16 wedi'u chwarae yng Nghwmbrân a Chaerdydd.

**MAI 2019**
Gwersyll tridiau lle dewiswyd y sgwadiau ar gyfer cyfres brawf Ulster.

**MEHEFIN 2019**
Cyfres brawf ar gyfer y ddau grŵp oedran oddi cartref yn Ulster. Enillodd y tîm D18 y gyfres brawf gyda 2 fuddugoliaeth ac un golled. Cafodd y tîm D16 brofiad cymysg, gan golli, ennill a chael gêm gyfartal yn y gyfres.

**GORFFENNAF 2019**
Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer Twrnamaint 5 Ewrop yng Ngwlad Pwyl yn nes ymlaen yn ystod y mis lle daethant yn 6ed, dechreuodd y tîm D16 y mis gyda chyfres 4 gêm yn Ffrainc gan arwain at 3 buddugoliaeth ac 1 golled.

**AWST 2019 - CWPAN FUTURES**
Cwpan Futures oedd y nod yn ystod y mis yma gyda gwersyll hyfforddi'n cael ei ddilyn gan y twrnamaint. Yn cystadlu fel y Jaguars Celtaidd, perfformiodd y sgwadiau D16 a D18 yn llawer gwell nag yn y blynyddoedd blaenorol.

**CHWEFROR 2020**
Gwersyll tridiau yng Nghaerdydd oedd yn cynnwys 2 gêm yn erbyn Colegau Prydain ar gyfer y sgwad D18 gan golli yn y gêm gyntaf ac ennill yr ail.

## GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL – BECHGYN

**PASG 2019**
Chwaraeodd y timau D16 a D18 gyfres 3 gêm brawf yn erbyn yr Alban yng Nghaerdydd.

**MAI 2019**
Gwersyll hyfforddi hanner tymor oedd yn cynnwys gemau ar gyfer y sgwad yn erbyn Lloegr D16, yr RAF D25 a Cholegau Prydain.

**MEHEFIN 2019**
Aeth y sgwad 5 D16 i Ffrainc a chwarae 4 gêm ymarfer, gan ennill 1 a cholli 3.

Chwaraeodd y timau D16 a D18 gyfres 3 gêm brawf yn erbyn Ulster yn Wrescam. Enillodd y tîm D18 2 gêm a chael 1 gêm gyfartal. Cafodd y tîm D16 gêm olaf gyfartal ar ôl colli mewn 2 gêm agos.

**GORFFENNAF 2019**
Chwaraeodd y sgwad 5 D16 yn y Pencampwriaethau EwroHoci a gynhaliwyd yn Walcz, Gwlad Pwyl. Gorffen yn 9fed allan o 15.

**AWST 2019 - CWPAN FUTURES**
Cystadlodd y bechgyn D16 a D18 yn well nag erioed yn y twrnamaint. Roedd y canlyniadau'n llawer agosach nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol, yn enwedig i'r sgwad D16. Heriodd y ddau sgwad wrthwynebwyr cryf yn dda iawn.

# STAFF CYMORTH PERFFORMIAD

## MERCHED HŶN

**Kevin Johnson**
*Prif Hyfforddwr*

**Rebecca Daniels**
*Rheolwr*

**Gareth Weaver-Tyler**
*Hyfforddwr Cynorthwyol (tan fis Medi 2019)*

**Moses Lodarmasse**
*Hyfforddwr Cynorthwyol (tan fis Tach 2019)*

**Walid Abdo**
*Prif Hyfforddwr D21 (tan fis Awst 2019)*

**Gareth Terrett**
*Prif Hyfforddwr D21 (o fis Awst 2019)*

**Jonny Harper**
*Ffisiotherapydd*

**Carmen Ansley**
*Ffisiotherapydd D21*

**Henry Davies**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru (tan fis Awst 2019)*

**Andrew Roberts**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru (o fis Medi 2019)*

**Theo Dowse**
*Hyfforddwr Gôl-geidwaid/ Dadansoddwr Perfformiad*



*Staff Perfformiad – Merched Hŷn*

## DYNION HŶN

**Zak Jones**
*Prif Hyfforddwr*

**Will Packer**
*Rheolwr*

**Danny Newcombe**
*Hyfforddwr Cynorthwyol/Prif Hyfforddwr D21*

**Sam Rowe**
*Dadansoddwr Perfformiad*

**Tom Jenkins**
*Ffisiotherapydd*

**Alistair Eustace**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru*

**Keir Starley**
*Hyfforddwr Gôl-geidwaid*



*Staff Perfformiad – Dynion Hŷn*

## GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL – MERCHED

**Gwyn Williams**
*Prif Hyfforddwr*

**Shelley Robinson**
*Rheolwr y Rhaglen*

**Dafydd Tomos**
*Hyfforddwr*

**Joe Rooney**
*Hyfforddwr*

**Nick Fackrell**
*Hyfforddwr*

**Rob Sorrell**
*Hyfforddwr*

**Mark Mullineaux**
*Uwch Arweinydd Rhaglenni a Chryfder a Chyflyru/Merched NAG Dros Dro Cryfder a Chyflyru*

**Sam Milner**
*Ffisiotherapydd*

**Amy Booth**
*Dadansoddwr Perfformiad*

## GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL – BECHGYN

**Lee Ible**
*Prif Hyfforddwr*

**Joe Gleeson**
*Rheolwr y Rhaglen*

**Lee Marshall**
*Hyfforddwr*

**Andrew Gibson**
*Hyfforddwr*

**Harry Jones**
*Hyfforddwr*


**Ian Haley**
*Hyfforddwr*

**Tom Little**
*Dadansoddwr Perfformiad*

**Christy Walklin**
*Ffisiotherapydd*

**Lloyd Tonkin**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru*

# 360 Hockey Centres




**Mae llwybr perfformio 360 yn sicrhau bod ieuenctid talentog yn datblygu mewn amgylchedd perfformiad i gyflawni eu potensial.**

Dod yn rhan o'r llwybr 360 yw'r cam cyntaf yn y system berfformio. Pan maent yn rhan o 360, mae'r chwaraewyr yn cael eu datblygu'n gyfannol yn y rhaglen gan sicrhau eu bod yn cael cymorth gyda datblygiad technegol, tactegol, corfforol a siecolegol yn rheolaidd.

Yn 2020 cafodd y rhaglen 360 ei heffeithio gan stormydd mis Chwefror ac wedyn cau yn gynnar ym mis Mawrth oherwydd pandemig COVID-19 a chanlso pob hoci domestig.


## MEDI 2019 – MAWRTH 2020

**345**
**O CHWARAEWYR**
ar draws
**7**
**LLEOLIAD**

**25**
**O HYFFORDDWYR RHEOLAIDD**
yn darparu ar draws y canolfannau

**ARWEINYDD CRYFDER A CHYFLYRU**
ymroddedig ar gyfer y rhaglen

# AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS



# UCHAFBWYNTIAU AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS

## HYFFORDDI



**200**

O DDYFARNIADAU ARWEINYDDIAETH MEWN HYFFORDDIANT HOCI



**247**

O HYFFORDDWYR YN AELODAU LEDLED CYMRU



**12**

**Hyfforddwr** wedi cael eu **dewis** i fod yn rhan o **Raglen Datblygu Hyfforddwyr** barhaus a phwrpasol.

4689

Mae'r **cymhwyster 4689** wedi cael ei ddiweddaru i **gymhwyster Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci**.

Sports Leaders

Mae ein **Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci** yn dod gydag **achrediad Arweinydd Chwaraeon**.

## DYFARNU



**14**

O GYRSIAU DYFARNU LEFEL 1 WEDI'U CYFLWYNO I

**144**

O GYFRANOGWYR

EHF

Y tymor yma mae **aelodau WHUA** wedi derbyn

**25 O BENODIADAU**

gan **Ffederasiwn Hoci Ewrop.**



**2**

DDYFARNWR WEDI SYMUD YMLAEN I BANEL NPUA



**479**

O DDYFARNWYR YN AELODAU LEDLED CYMRU



# DATBLYGU HYFFORDDWYR

**Fel rhan o strategaeth newydd, mae 12 hyfforddwr sy'n gweithio ar draws Llwybr Cymru wedi cael eu dewis i fod yn rhan o Raglen Datblygu Hyfforddwyr bwrpasol.**

Addasu'r Cyrsiau Addysgu Hyfforddwyr – Yn ystod y flwyddyn hon, rydyn ni wedi cynnig mwy o gyfleoedd nag erioed i'n gweithlu hyfforddi drwy gyfle sydd wedi'i ddatblygu o'r newydd i symud ein cyrsiau i'r Hwb Hoci o dan ymbarél Hoci Prydain Fawr. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi croesawu rhai o diwtoriaid Prydain Fawr i gyflwyno cyrsiau yng Nghymru, ac mae ein tiwtoriaid ni wedi mynd i gyflwyno cyrsiau ledled Prydain Fawr. Rydyn ni'n credu bod hon yn esiampl wych o waith partneriaeth ac mae'n gyfle datblygu i weithlu hyfforddi Cymru.

Cymuned Ymarfer – Mae'r digwyddiadau hyn wedi cael eu cyflwyno i aelodau Hoci Cymru fel llwyfan i drafod hyfforddi mewn amgylchedd anffurfiol a hamddenol.

Mae'r cyfleoedd hyn wedi profi'n boblogaidd ledled y wlad ac wedi denu diddordeb gan hyfforddwyr mewn chwaraeon eraill. Mae'n wych gweld chwaraeon yn cydweithio i gyflawni nod cyffredin o ddarparu profiad chwaraeon buddiol i'r cyfranogwyr.

Darpariaeth Addysg Uwch (AU) – Mae Hoci Cymru yn falch o gadarnhau ein bod unwaith eto wedi gallu anrhydeddu ein hymrwymiad i hoci mewn Prifysgolion ledled Cymru drwy gynnig llefydd am ddim ar gyrsiau addysgu hyfforddwyr. Rydyn ni'n credu bod y buddsoddiad hwn mewn myfyrwyr yn allweddol er mwyn i'r gêm barhau i ddatblygu mewn sefydliadau AU ac yn y cymunedau lleol drwy raglenni allgymorth.

Datblygiad Hyfforddwyr Pwrpasol – rydyn ni wedi gallu parhau i ddarparu datblygiad 1 i 1 i'r gweithlu hyfforddi yng Nghymru. Mae'r gefnogaeth hon yn galluogi i ni ddatblygu'r hyfforddwr yn ei amser ei hun ac yn ei amgylchedd ei hun gan gyd-fynd â'i nodau, ac yn sail i'r athroniaeth hyfforddi allweddol yn ein rhaglenni DPP ac addysgu hyfforddwyr.

Mae sawl cwrs unigol wedi'u cynnal drwy gydol y flwyddyn sydd wedi bod yn gyfle i ddeall y tirlun presennol ymhellach.

Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys Sioe Deithiol 'End in Mind', gyda Zak Jones yn cyflwyno ar y tueddiadau rhyngwladol presennol a gwyliodd y cyfranogwyr sesiwn hyfforddi'r dynion hŷn. Daeth y diwrnod i ben i'r hyfforddwyr gyda gweithdy ar Fframwaith Datblygu Talent Hoci Prydain Fawr.

Cyn y cyfyngiadau symud roeddem yn gallu cyflwyno gweithdy i hyfforddwyr ieuenctid Hoci Gwent. Roedd ffocws y sesiwn ymarfer ar 'arfer da' a syniadau am sut i ddelio â grwpiau gallu cymysg.



# DYFARNIAD ARWEINYDDIAETH MEWN HYFFORDDI HOCI

**Yn sail i'n rhaglen Hooked on Hoci a hoci iau ledled y wlad mae ein cymhwyster Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci. Wedi'i ailfrandio o'r cymhwyster 4689, mae'r dyfarniad ar ei newydd wedd yn gam cyntaf atyniadol a hygyrch ar y llwybr hyfforddi.**

Yn 2019/20, ail-lansiwyd y cymhwyster, sydd bellach yn ymgorffori'n llwyr athroniaethau'r Llinyn Euraid a CHANGEIT. Dangosodd ein hymchwil bod edrychiad a theimlad y cardiau yn hanfodol o ran a fyddant yn cael eu defnyddio gan yr arweinwyr, felly mae llawer o waith wedi cael ei wneud ar gyfer gwneud y cynnyrch yn addas ar gyfer ein defnyddwyr. Hefyd rydyn ni wedi defnyddio ein hamser yn y cam datblygu i wella ein gweithlu o diwtoriaid, fel eu bod wedi eu paratoi'n briodol i gyflwyno'r profiad dysgu gorau posib.

Mae ein Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci yn dod gydag achrediad Arweinwyr Chwaraeon ac mae'n gam sy'n cael ei gydnabod tuag at y dyfarniadau Sesiynol a Hyfforddi sy'n ofynnol er mwyn hyfforddi hoci yn annibynnol ledled Prydain Fawr. Mae'n boblogaidd iawn gydag Arweinwyr Chwaraeon mewn ysgolion uwchradd, sy'n teimlo bod y sgiliau trosglwyddadwy maen nhw'n eu dysgu ar y cwrs yn hynod fuddiol i'w datblygiad parhaus fel gweithwyr chwaraeon proffesiynol, gyda rhai ohonynt yn dod yn hyfforddwyr cymunedol Hooked on Hoci yn y diwedd.

200 yn bresennol ar gyrsiau yn 2019/20.

> 'Mae ein Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci yn dod gydag achrediad Arweinwyr Chwaraeon ac mae'n gam sy'n cael ei gydnabod tuag at y dyfarniadau Sesiynol a Hyfforddi sy'n ofynnol er mwyn hyfforddi hoci yn annibynnol ledled Prydain Fawr'



# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYMDEITHAS DYFARNWYR HOCI CYMRU

**Eto mae'n braf cael adrodd bod dyfarnwyr yr WHUA yn parhau i gystadlu'n llwyddiannus iawn ar y llwyfan rhyngwladol, a'r tymor yma mae ein haelodau wedi derbyn 25 o benodiadau gan Ffederasiwn Hoci Ewrop. Roedd hyn yn cynnwys Cathy Wright fel dyfarnwr y Bencampwriaeth Dan Do ym Minsk a'r Cwpan Clwb Dan Do a Chris Brewer fel Cynrychiolydd Technegol yn y Cwpan Clwb Dan Do yn Poznan a Rowndiau Terfynol Cynghrair EwroHoci yn Amsterdam. Mae'n anffodus na chafodd nifer o'r penodiadau hyn eu gwireddu oherwydd yr hinsawdd bresennol, wrth i ddigwyddiadau gael eu canslo.**

Mae aelodau'r WHUA wedi cael eu cydnabod hefyd ar lefel y byd gyda nifer o'n dyfarnwyr a'n swyddogion wedi cael eu huwchraddio a'u dewis ar gyfer Panelau FIH amrywiol. Mae Kevin Roberts a Toni-Lee Lambert yn aelodau o'r Panel Dyfarnu Rhyngwladol (Awyr Agored), mae John Taylor yn aelod o'r Panel Hybu Dyfarnu Technegol ac mae Karen Evans wedi cael dyrchafiad i'r Panel Hybu Rheolwyr Dyfarnu (Awyr Agored) a'r Panel Rheolwyr Dyfarnu Rhyngwladol (Dan Do).

Gartref, mae'r tymor hwn wedi bod yn achos dathlu hefyd gyda Clare Barwood (Awyr Agored a Dan Do) ac Abby McArthur (Dan Do) yn ymuno â'n dyfarnwyr eraill ar banelau'r NPUA. O ran datblygu, mae wedi bod yn flwyddyn eithaf rhyfedd wrth i lawer o weithgarwch datblygu ddigwydd yn gysylltiedig â'r Digwyddiadau Cenedlaethol sydd wedi dod i ben oherwydd canslo'r tymor. Fodd bynnag, rhaid diolch i'r aelodau pwyllgor ym mhob rhanbarth sy'n treulio llawer o amser ac yn gwneud llawer o ymdrech yn mynd allan i gefnogi dyfarnwyr mewn clybiau drwy hyfforddi, mentora ac asesu.

Tu ôl i'r llenni, mae'r WHUA a Hoci Cymru wedi bod yn gweithio gyda 'Who's the Umpire' i greu bas data aelodaeth / penodiadau, a ddaw'n amlycach wrth i'r system esblygu a diwallu ein hanghenion. Er gwaetha'r holl elfennau negatif wrth i'r tymor ddod i ben yn fuan, un peth positif sydd wedi codi o hyn yw'r symud i ddilyn cwrs dyfarnwyr Lefel 1 ar-lein. Dylai hyn alluogi i fwy o aelodau Hoci Cymru gael hyfforddiant dyfarnu dim ots ble maent yn byw.





# CYFLEUSTERAU

**Drwy ein hymrwymiad parhaus i ddarparu Amgylcheddau Ffyniannus, rydyn ni'n chwarae rhan weithredol yn y Grŵp Cydweithredu Cyfleusterau, sy'n cydwethio i gynllunio datblygiadau cyfleusterau yn ddeallus ledled Cymru.**

Mae ailwynebu'r cae hoci ym Mharc Bodegroes, Pwllheli wedi bod yn ganlyniad uniongyrchol i ymgynghoriad trwyadl gyda'r gymuned a chefnogaeth gan y Grŵp Cydweithredu a Llywodraeth Cymru.


Ddechrau 2020, cafodd y cae hoci yng Nghlwb Hoci Pwllheli ei newid am bad sioc a charped newydd sbon, sydd bellach yn darparu llwyfan rhagorol i'r clwb barhau â'i waith ardderchog yn y gymuned a'i raglenni hoci ieuenctid.

Byddwn nawr yn gweithio gyda Chlwb Hoci Pwllheli i weithredu ei gynllun hoci tymor hir ar gyfer hoci ar Benrhyn Llŷn, gan sicrhau bod cymaint o bobl â phosib o'r gymuned leol yn gallu chwarae hoci.

'Mae ailwynebu'r cae hoci wedi bod yn ganlyniad uniongyrchol i ymgynghoriad trwyadl gyda'r gymuned a chefnogaeth gan y Grŵp Cydweithredu a Llywodraeth Cymru'



# CYFRANOGIAD



# UCHAFBWYNTIAU CYFRANOGIAD

## MEISTRI'R MERCHED

DROS 35 & 60

Fel rhan o dymor 2019 meistri'r merched cyflwynwyd **dau grŵp oedran newydd – dros 35 a dros 60.**

Cystadlodd y grwpiau **dros 40, 45, 50 a 55** mewn **dau dwrnamaint rhyngwladol** yn nhymor 2019 - y **Gwledydd Cartref a Chwpan Ewropeaidd IMHA.**

**Chwaraeodd y grŵp dros 60 eu twrnamaint Ewropeaidd cyntaf a gynhaliwyd gan WGMA a dod adref gyda medal arian.**

## MEISTRI'R DYNION

DROS 35 — 70

Cystadlodd **pob grŵp oedran (Dros 35 - Dros 70)** yn y **Gwledydd Cartref a'r Gwpan Ewropeaidd.**

Cadwodd y grŵp **Dros 65** deitl **y Cwpan Celtaidd yn Abertawe, gan ennill** y twrnamaint hwnnw am y **4edd flwyddyn yn olynol.**

Yn y **Cwpan Celtaidd**, hawliodd y **grŵp Dros 70 y safle uchaf** am y **tro cyntaf.**

## CLYBIAU PERFFORMIAD

1af 3ydd

**Daeth Clwb Hoci Caerdydd a'r Met yn 1af yn Nhlws Clwb EwroHoci Awyr Agored y Dynion yn 2019 a gorffen yn 3ydd yn Adran Un Gogledd y Gynghrair Genedlaethol.**

3ydd 1af

**Daeth Clwb Hoci Abertawe yn 3ydd yn Her II Clwb EwroHoci Awyr Agored y Merched yn 2019 ac ennill Adran Un y Gogledd a sicrhau dyrchafiad i'r Brif Adran.**

## CYSTADLAETHAU CWPAN HOCI CYMRU

**Effeithiodd pandemig y coronafeirws ar y rhan fwyaf o gystadlaethau cwpan Clybiau ac Ysgolion Hoci Cymru.**

**Rowndiau Terfynol Dan Do Cenedlaethol Hoci Cymru**

ENILLYDD DAN DO Y MERCHED

**CLWB HOCI ABERTAWE**

ENILLYDD DAN DO Y DYNION

**CLWB HOCI MET CAERDYDD**

**Chwaraewyd dwy gêm derfynol i ysgolion:**

ENILLYDD Y MERCHED YSGOL D18

**HOWELLS**

ENILLYDD Y MERCHED YSGOL D16

**YSGOL GLANTAF**

ICH DIEN

GEMAU RHYNGWLADOL CYMYSG

**Gorffennaf 2019**

**CYMRU**

ENNILL Y GYFRES





# MEISTRI CYMRU – MERCHED DROS 35, 40, 45, 50, 55 A 60

**Yn nhymor 2019 meistri'r merched cyflwynwyd dau grŵp oedran newydd, dros 35 a 60. Roedd mwy nag erioed yn bresennol yn y treialon dros 35, yn dilyn ymgyrch recriwtio fawr a drefnwyd gan Anne Barratt, ond roedd y grŵp dros 60 yn anos ei sefydlu. Gyda dim ond naw chwaraewr, cofrestrwyd y tîm ar gyfer y cwpan Ewropeaidd yn y gobaith y byddem yn recriwtio mwy i greu tîm llawn, a llwyddwyd i wneud hynny yn y diwedd, drwy alwadau ffôn a negeseuon twitter diddiwedd.**

Cofrestrwyd y timau Dros 40, 45, 50 a 55 mewn dau dwrnamaint rhyngwladol yn nhymor 2019 – y Gwledydd Cartref a Chwpan Ewropeaidd IMHA.

Hwn fyddai'r tymor olaf i'r merched chwarae o dan yr IMHA oherwydd byddai'r WMH yn cymryd yr awenau yn 2020. Fodd bynnag, roedd penderfyniad wedi'i wneud gan yr IMHA i ddilyn y fformat newydd oedd yn cael ei gyflwyno gan yr WMH i rannu'r twrnamaint Ewropeaidd o fod yn bob grŵp oedran yn un lleoliad i ddefnyddio tri lleoliad gyda'r grwpiau oedran dros 35, 40 a 45 yn Rotterdam, dros 50 a 55 yn Krefeld a thros 60 yn Brasschaat.

Roedd hon yn gryn her i'r merched o ran staff cefnogi gan ein bod yn cael ein cefnogi gan dîm penodol o Hyfforddwyr, Rheolwyr, Dyfarnwyr, Meddygon, Ffisiotherapyddion ac Ystadegwyr gwirfoddol sy'n gweithio ar draws sawl grŵp oedran drwy gydol y tymor. Roedd hyn yn golygu bod timau'n teithio i dwrnameintiau heb ein staff cefnogi arferol, ond ochr yn ochr â meistri'r Dynion, llwyddwyd i rannu a chwblhau'r dasg.

Roedd twrnamaint y Gwledydd Cartref a gynhaliwyd ar 14eg i 16eg Mehefin yng Nghlwb Hoci Southgate yn Lloegr yn dwrnamaint a gynhaliwyd yn dda iawn gyda'r chwaraewyr yn mwynhau cyfleusterau hoci gwych. Perfformiodd pawb yn dda drwy gydol y twrnamaint a chafwyd rhai perfformiadau eithriadol gan ein timau ni i gyd, a pheth torcalon pan nad oedd y canlyniadau fel roedden ni wedi gobeithio.

Cofrestrwyd y timau Dros 35, 40 a 45 yn y twrnamaint Ewropeaidd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf yng Nghlwb Hoci Rotterdam, Yr Iseldiroedd. Roedd yn dwrnamaint da ond poeth iawn, ac yn ddechrau ar ymgyrch ein grŵp oedran 35 ym myd hoci'r Meistri. Roedd yn dwrnamaint llwyddiannus i bawb cysylltiedig gyda safleoedd terfynol rhai timau'n well nag eraill.

Chwaraeodd y grŵp dros 60 yn eu twrnamaint Ewropeaidd cyntaf a gynhaliwyd gan yr WGMA yn Brasschaat yng Ngwlad Belg rhwng yr 16eg a'r 29ain Mehefin, ac eto roedd hwn yn dwrnamaint a chwaraewyd mewn gwres eithriadol a'i gefnogi gan feistri'r Dynion (nid oedd posib i'r hyfforddwr dros 60 deithio ar gyfer y twrnamaint llawn) gan ennill Medal Arian gwbl haeddiannol.

Ym mis Awst, teithiodd y grŵp dros 50 a 55 i Glwb Hoci Krefeld yn yr Almaen, sef y clwb cyntaf i gynnal twrnamaint IMHA, a nawr y clwb olaf hefyd i gynnal un. Roedd yn dwrnamaint anodd i'r ddau dîm ond daethant yn agos iawn at y medalau. Hwn hefyd oedd y twrnamaint cyntaf gyda phob gêm a chwaraewyd drwy gydol y gystadleuaeth yn cael ei darlledu ar y teledu, oedd yn ddiwedd priodol i'r IMHA ac i dwrnameintiau 2019.








# MEISTRI CYMRU – DYNION DROS 35, 40, 45, 50, 55, 60, 65 A 70T

**Yn nhymor 2019 cystadlodd yr holl grwpiau oedran yn y Gwledydd Cartref a Meistri Ewrop. Cynrychiolodd yr holl grwpiau eu gwlad i safon uchel gan ddangos sgiliau a phenderfyniad i greu tymor positif o hoci.**

Cynhaliwyd twrnamaint Dros 35 y Gwledydd Cartref yn stadiwm y Gymanwlad yn Glasgow lle daeth y tîm ar ei newydd wedd yn bedwerydd. Yn nes ymlaen, yn ystod yr haf, aeth y sgwad i Rotterdam ar gyfer Pencampwriaethau Ewrop, lle'r oedd 96 o dimau rhyngwladol o 20 o wledydd, yn maesu mwy na 2000 o chwaraewyr. Ar ôl grŵp caled, gorffennodd y tîm yn 6ed yn gyffredinol wedi gêm olaf yn erbyn Sbaen.

Chwaraeodd y grŵp Dros 40 hoci o safon yn ystod y tymor diwethaf. Ar ôl gorffen yn 4ydd yn y Gwledydd Cartref yn Abertawe, teithiodd y tîm i Feistri Ewrop yn Rotterdam a gwelwyd ymdrech dîm aruthrol gyda'r grŵp yn gorffen yn 5ed yn gyffredinol.

Yn y Gwledydd Cartref yn Glasgow, gorffennodd y grŵp Dros 45 yn bedwerydd. Ymlaen i Rotterdam ar gyfer Pencampwriaethau Ewrop ac roedd Cymru mewn grŵp gyda'r cynheiliaid, yr Iseldiroedd, a'r Alban. Ar ôl colli yn y grŵp, symudodd Cymru i chwarae yn y gemau ail gyfle, gan gyfarfod Sbaen, ac wedyn cafwyd buddugoliaeth yn erbyn yr Eidal yng ngêm gystadleuol olaf y tymor.

Daeth y grŵp Dros 50 yn drydydd yn y Gwledydd Cartref ar ôl colli mewn gêm agos yn erbyn Lloegr ac wedyn gemau cyfartal yn erbyn yr Alban ac Iwerddon. Yn yr Ewros yn Krefeld, roedd yr Almaen yn well tîm, collwyd gêm agos yn erbyn y pencampwyr yn y diwedd, yr Iseldiroedd, ac wedyn trechwyd Ffrainc a'r Alban. Yr uchafbwynt oedd buddugoliaeth o 6-0 yn erbyn Sbaen, ond wedi colli i'r Alban, 6ed oedd Cymru yn y diwedd.

Cafodd y grŵp Dros 55 dymor da gyda sgwad cyson a rhai perfformiadau cryf yn y gemau ymarfer cyn y twrnamaint, gan eu harwain i orffen yn y 3ydd safle yn y Gwledydd Cartref yn Glasgow. Ym Mhencampwriaethau Ewrop yn yr Almaen, daethant yn 8fed yn gyffredinol wedi rhai perfformiadau gwych yn erbyn gwrthwynebwyr heriol.

Roedd gan y grŵp Dros 60 hyfforddwr newydd, David Kettle. Daethant yn 3ydd yn y Cwpan Celtaidd a gynhaliwyd yn Abertawe, cyn teithio i Aberdeen ar gyfer y Pedair Gwlad, gyda Chymru'n rhoi perfformiadau gwych mewn cystadleuaeth glos iawn, gan orffen yn 4ydd. Aethant ymlaen i'r Cwpan Ewropeaidd yn Antwerp gan ddod yn 6ed.

Roedd y grwpiau Dros 65 a 70 yn cael eu hyfforddi gan Andy Mitchell yn ystod 2019, gyda'r ddau dîm yn cael canlyniadau cofiadwy.

Daliodd y grŵp Dros 65 ei afael yn y Cwpan Celtaidd yn Abertawe, gan ennill y twrnamaint hwnnw am y 4edd flwyddyn yn olynol. Aethant ymlaen i orffen yn drydydd yn y Gwledydd Cartref yn Aberdeen cyn cystadlu yng Nghwpan Ewrop yng Ngwlad Belg, lle daethant yn 4ydd gan golli o 4-3 yn erbyn yr Almaen yn y gêm i gipio'r fedal Efydd. Fe fyddai'r grŵp Dros 65 wedi ennill medal yn sicr oni bai am yr anafiadau i'w ddau brif sgoriwr yn y camau grŵp.

Hawliodd y grŵp Dros 70 y safle uchaf yn y Cwpan Celtaidd am y tro cyntaf. Parhaodd y perfformiadau da yn nhwrnamaint y Pedair Gwlad yn Aberdeen, gan hawlio'r ail safle. Roedd gan y tîm obeithion mawr wrth fynd i Gwpan Ewrop yng Ngwlad Belg ac ar ôl perfformiadau cadarn, daethant yn bedwerydd.

Gorffennodd y Dreigiau 65+ yn 7fed a'r Dreigiau 70+ yn 8fed yn y Pencampwriaethau Ewropeaidd yn Antwerp a chafodd y Dreigiau 60+ flwyddyn wych, gan ennill dau allan o dri thwrnamaint heb fod yn rhyngwladol yn Lille a Durham; roedd y timau'n cynnwys chwaraewyr o bob un o'r pedwar grŵp oedran meistr.





# CYSTADLAETHAU 2019/2020

Oherwydd pandemig COVID-19, yn ystod y tymor yma cafodd pob hoci domestig, clwb a chymunedol ei ohirio ar 17eg Mawrth am fis, ac wedyn ei ganslo tan 30ain Mehefin, gan arwain at dymor byrrach gyda fawr ddim cystadlaethau cwpan yn cyrraedd y cam terfynol.

## CYSTADLAETHAU CLWB

Enillwyr Dan Do y Merched
**– Clwb Hoci Abertawe**

Enillwyr Dan Do y Dynion
**– Clwb Hoci Caerdydd a'r Met**

Yn Rownd Derfynol Pencampwriaethau'r Merched
**– Clwb Hoci Merched Howardian, Clwb Hoci Caerdydd a'r Met**

Yn Rownd Derfynol Pencampwriaethau'r Dynion
**– Clwb Hoci Caerdydd a'r Met v Penarth neu Glwb Hoci Yr Eglwys Newydd**

Yn Rownd Derfynol Tlws y Merched
**– Clwb Hoci Merched Y Rhondda, Clwb Hoci Merched Castell-newydd Emlyn**

Yn Rownd Gyn-derfynol Tlws y Dynion
**– Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a'r Met B, Prifysgol Caerdydd A, Yr Eglwys Newydd A**

Yn Rownd Derfynol Her y Merched
**– 2il Dîm Clwb Hoci Caerfyrddin, 2il Dîm Clwb Hoci Merched Northop Hall**

Yn Rownd Gyn-derfynol Her y Dynion
**– Prifysgol Bangor, Caerdydd a'r Met D, Abertawe D, Yr Eglwys Newydd C**

Meistri'r Merched
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

Meistri'r Dynion
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

## CYSTADLAETHAU IEUENCTID

Yn Rownd Gyn-derfynol y Merched D18
**– Eirias, Gwent, Northop Hall, Penarth**

Yn Rownd Gyn-derfynol y Bechgyn D18
**– Eirias, Gwent, Abertawe, Yr Eglwys Newydd**

Yn Rownd Gyn-derfynol y Merched D15
**– Bangor Gwent, Llanfair, Yr Eglwys Newydd Seintiau**

Yn Rownd Gyn-derfynol y Bechgyn D15
**– Eirias, Gwent, Abertawe, Yr Eglwys Newydd**

Merched D13
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

Bechgyn D13
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

Merched D11
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

Bechgyn D11
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*





**CYSTADLAETHAU CLWB EWROHOCI**

2019 Tlws Clwb EwroHoci Awyr Agored y Dynion – Wettingen (SUI)
**– 1af Caerdydd a'r Met**

2019 Her I Clwb EwroHoci Awyr Agored y Dynion – Siemianowice Slaskie (POL)
**– 3ydd Clwb Hoci Yr Eglwys Newydd**

2019 Her II Clwb EwroHoci Awyr Agored y Merched – Vienna (AUT)
**– 3ydd Clwb Hoci Dinas Abertawe**
**– 7fed Clwb Hoci Prifysgol Caerdydd**

2020 Her I Clwb EwroHoci Dan Do y Dynion – Varna-Kamchia (BUL)
**– 3ydd Clwb Hoci Caerdydd a'r Met**

2020 Her I Clwb EwroHoci Dan Do y Merched – Porto (POR)
**– 3ydd Clwb Hoci Abertawe**

**CYSTADLAETHAU YSGOLION**

Enillwyr Merched Ysgol D18
**– Ysgol Howells (Caerdydd a'r Fro)**

Enillwyr Merched Ysgol D16
**– Ysgol Glantaf (Caerdydd a'r Fro)**

Merched Ysgol D14
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

Merched Ysgol D12
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*


Bechgyn Ysgol D18
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

Bechgyn Ysgol D16
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

Bechgyn Ysgol D14
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

Bechgyn Ysgol D12
*Y gystadleuaeth wedi'i chanslo*

# PARTNERIAETHAU



# PARTNERIAID

## Hoffem ddiolch i'n partneriaid ni i gyd am eu cefnogaeth

European Hockey Federation

International Hockey Federation

Welsh Hockey Umpires Association

**Diolch enfawr i Irfon Bennett sy'n cofnodi'r holl ddigwyddiadau arbennig gyda'i sgiliau ffotograffiaeth.**







## CYFRANNU CIT

Rydyn ni wedi derbyn cyfraniadau ar ffurf cit gan **YSGOL Y GADEIRLAN**

**DIOLCH**



# 286

## O AELODAU




## RAFFL FISOL

**48** O RAFFLAU MISOL

**32** O ENILLWYR UNIGOL

**16** O GLYBIAU'N ENILLWYR

# PROSIECTAU 2019 – 2020



## CEFNOGAETH CLWB

**Clwb Hoci Pwllheli** – Cefnogaeth gyda **PHROSIECT AILDDATBLYGU CAE**



## CEFNOGAETH YSGOL

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf –** Cefnogaeth gyda **PHROSIECT OFFER NEWYDD**



## CYDNABOD CYFLAWNIAD

Cyllido **'Gwobr Peter English'** yng Ngwobrau Hoci Cymru **ENILLYDD – HANNAH ROSS**



## CAPIAU RHYNGLWADOL

Noddi **CAPIAU RHYNGWLADOL HŶN CYMRU** 1af, 50fed, 100fed a 150fed

Tudalen Facebook newydd wedi cael ei sefydlu, **188 o ddilynwyr**

**Friends of Welsh Hockey**

Twitter, 2019, 186 o ddilynwyr – **2020, 285 O DDILYNWYR**

**@Friends of WH**

Instagram, **119 O DDILYNWYR** ers mis Ionawr 2020

**friends_of_wh**


**www.friendsofwelshhockey.org.uk**

Rhif Elusen: 1140894

# MANYLION ARIANNOL



# MANYLION ARIANNOL 2019–2020



HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# DIOLCH YN FAWR

**Adroddiad Blynyddol Hoci Cymru 2019/20.**

**Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad ac i'r teulu hoci am eich cefnogaeth gyson.**

Am fwy o wybodaeth neu i gymryd rhan ewch i:

**www.hockeywales.org.uk**

**@HockeyWales**

**@hockey_wales**

**@HockeyWales**

Neu anfonwch e-bost atom ni ar: **info@hockeywales.org.uk**

**Hoci Cymru**
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.